VAUGHAN, Syr JOHN (1603 - 1674), barnwr

Enw: John Vaughan
Dyddiad geni: 1603
Dyddiad marw: 1674
Priod: Jane Vaughan (née Stedman)
Plentyn: Anne Vaughan
Plentyn: Lucy Vaughan (née Vaughan)
Plentyn: Edward Vaughan
Rhiant: Lettice Vaughan (née Stedman)
Rhiant: Edward Vaughan
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: barnwr
Maes gweithgaredd: Hanes a Diwylliant; Cyfraith
Awdur: John Gwynn Williams

Ganwyd 14 Medi 1603 yn Nhrawsgoed, Sir Aberteifi, mab hynaf Edward Vaughan a Lettice (Stedman); gweler yr ysgrif ' Vaughan o'r Trawsgoed.' Addysgwyd ef yn ysgol Worcester (1613-8), yng Ngholeg Eglwys Crist, Rhydychen (1618-21), a'r Inner Temple (ei dderbyn yno yn 1621, ei alw i'r Bar yn 1630, a dyfod yn ' bencher ' yn 1664). Yn y Star Chamber y gwnaeth ei enw ar y cychwyn. Etholwyd ef i'r Senedd dros fwrdeisdref Aberteifi yn Ebrill 1640 a Rhagfyr 1640, ac efallai mor gynnar â Chwefror 1627/8. Ychydig o hanes dilys sydd amdano o 1642 hyd 1660. Cynigiodd Clarendon swydd barnwr iddo yn 1660, ond fe'i gwrthododd. Etholwyd ef drachefn i'r Senedd yn Ebrill 1661, dros sir Aberteifi y tro hwn. Daeth yn un o brif arweinwyr y 'country party' ac ymhlith yr huotlaf yn y T . Bu'n flaenllaw yn yr ymosodiadau ar Clarendon yn 1667. Cafodd ddyrchafiad sydyn ym Mai 1668 i fod yn brif farnwr llys y Common Pleas, a gwnaed ef yn farchog. Enillodd enwogrwydd arhosol am ei ddyfarniad pwysig yn ' Bushell's Case ', na ddylid cosbi rheithwyr am roddi dedfryd yn groes i gyfarwyddyd y barnwr. Bu'n gyfeillgar â rhai o ddynion disgleiriaf ei oes - John Selden, a gyflwynodd iddo ei *Vindiciae Maris Clausi*; Thomas Hobbes, a ymwelai ag ef deirgwaith yr wythnos ar un pryd; Syr Matthew Hale, ei gymydog yn Acton; ac Edward Stillingfleet, a draddododd ei bregeth angladd. Bu farw 10 Rhagfyr 1674, a chladdwyd ef, yn ôl pob tebyg, yn y Temple Church, Llundain.

Rhoes beth cynhorthwy i luoedd y brenin yn ystod y Rhyfel Cartrefol (gweler J. R. Phillips, *Civil War*, ii, 154-7), ond i bob pwrpas ymddeolodd o fywyd cyhoeddus tan yr Adferiad. Dywedir iddo helpu'r Seneddwyr i gipio castell Aberystwyth yn 1646 (*Cambrian Register*, i, 166). Ni ellir profi hynny. Rhestrwyd ef ymysg y 'delinquents' ar 29 Mehefin 1648. Ei dystiolaeth ei hun yn 1660 oedd iddo gael ei ddirwyo a bod ei gartref wedi ei lwyr ysbeilio i'w ddirfawr golled (*S.P. Dom., Charles II*, 29/8, 126; gweler hefyd *Cambrian Quarterly Magazine*, i, 61). Yn 1660, apwyntiwyd ef yn stiward Mefenydd a phedair arglwyddiaeth arall yn perthyn i'r Goron yn Sir Aberteifi. Penododd yr iarll Carbery ef yn un o'i ddirprwy-raglawiaid dros y sir. Daeth rhai materion Cymreig i'w sylw yn y Senedd. Pan gododd dadl yngl n ag etholiad yn nhref Caernarfon, rhoddwyd ef ar y pwyllgor i archwilio'r broblem am ei fod yn deall, gellir tybio, ' the ancient true Celtique or Brittish tongue ' (*Jnl. of Sir*

Simon d'Ewes, gol. Notestein, 455). Yn 1662, yr oedd yn un o dri a enwyd i drafod y priodoldeb o gyfieithu'r *Llyfr Gweddi* newydd yn Gymraeg (*Commons Jnl.*, viii, 409). Ymddiddorai yn hanes a hynafiaethau Cymru. Fel un o ysgutorion ewyllys Selden, yr oedd ganddo allwedd i lyfrgell amhrisiadwy'r sgolor hwnnw. Cadwodd ohoni (gweler dan Field, Theophilus) lawysgrif ' Llyfr Landaf ' a rhoes ei benthyg i Robert Vaughan, Hengwrt, i'w chopïo (gweler ysgrif E. D. Jones yn *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, iv, 123). Yn un o'i opiniynau mwyaf nodedig, dywedodd nad oedd hawl gan y llysoedd yn Westminster i anfon 'final process' i Gymru (*Reports*, 395). Yr oedd ei awdurdod yn ddigon i ddiogelu'r llysoedd Cymreig am gyfnod. Sylfaenodd ei ddadl ar safle Cymru yn y Canol Oesoedd, ac, yn ei farn ef, ni newidiwyd y sefyllfa yn hyn o beth gan ddeddfau uno Harri VIII. Mor ddiweddar â 1745, defnyddiwyd ei ddadleuon yn effeithiol yn achos Lampley v. Thomas, pan benderfynwyd na ellid gyrru gw s 'latitat' i Gymru (*English Reports*, 1 Wilson, 193). Yn R. v. Athos awgrymodd y barnwr Fortescue ei fod o bosibl yn rhy bleidiol i'w wlad enedigol (' but he being a native of Wales, might be prejudiced in favour of his country,' *English Reports*, 8 Modern, 145).

Tyfodd y stad yn Nhrawsgoed yn sylweddol o dan ei ofal. Ar ddechrau ei yrfa prynodd diroedd gwerth £4,300 yn Aberteifi, a thiroedd yn Nhrefaldwyn ar ddiwedd ei oes. Trosglwyddwyd y stad yn gyfan gwbl i'w unig fab, Edward. Goroeswyd ef gan ei wraig, Jane (Stedman). Yr oedd iddynt hefyd ddwy ferch, Anne a Lucy. Y mae dau ddarlun olew o'r prif farnwr yng Nghymru, y naill yng Ngwysaney a'r llall ar fenthyg yn Ll.G.C.

Awdur

Yr Athro John Gwynn Williams

Ffynonellau

Oxford Dictionary of National Biography

Foss, *The Judges of England with sketches of their lives, and miscellaneous notices connected with the Courts at Westminster, from the time of the Conquest* (Llundain 1848-64), vii, 187

rhagymadrodd i *Vaughan Reports*

Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, 1938, 171

A. H. Dodd, *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1946-7, 59; 1948, 8

The Journals of the House of Commons, i, ii, viii, ix

dyddiaduron seneddol Robbins (gol.), *The Diary of John Milward, Esq., Member of Parliament for Derbyshire, September, 1666, to May 1668* (1770)

Notestein (gol.), *The Journal of Sir Simonds D'Ewes from the beginning of the Long Parliament to the opening of the Trial of the Earl of Strafford. [3 November 1640-20 March 1640-1.]* (New Haven 1923)

Debates of the House of Commons from the year 1667 to the year 1694, collected by the Hon. Anchitel Grey, Esq. (1769), i

A Complete Collection of State Trials ... (1816–98), vi

A Calendar of the Inner Temple Records (1896–1936)

The Crosswood Deeds National Library of Wales. Calendar of Deeds & Documents. vol. 2

Calendar of Wynn (of Gwydir) Papers, 1515–1690, in the National Library of Wales and elsewhere

Calendar of State Papers, Domestic Series, 1650, 248; 1656-7, 203; 1660-1, 141

P.R.O., 29/8, 126; 1661-2, 330

Addenda, 1660 - 70, 648

Calendar of the Committee for Advance of Money, 1642–56 (1888), 894

Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, iv, 123

Clarendon, *The Life of Edward Earl of Clarendon ... in which is included a continuation of his History of the Grand Rebellion* (Oxford 1857), 1857, i, 30-1

John Roland Phillips, *Memoirs of the Civil War in Wales and the Marches, 1642–1649* (London 1874)

Memoirs of the Verney Family ... (1892–9), iii, 177

Aubrey, *Brief Lives a selection based upon existing comtemporary portraits* (1949)

dyddiaduron Pepys (*The Diary of Samuel Pepys ... Transcribed from the shorthand manuscript in the Pepysian Library, Magdalene College, Cambridge, by the Rev. Mynors Bright ... With Lord Braybrooke's notes* (1770)) ac Evelyn (*Diary of John Evelyn* (Llundain 1906))

Vaughan Reports, 1677 a 1706

English Law Reports

W. S. Holdsworth, *A History of English Law* (1932), i, 128-32

S. R. Meyrick, *The History and Antiquities of the County of Cardigan* (London 1808)

K. Esdaile, *Temple Church Monuments. Being a report to the two Honourable Societies of the Temple* (Llundain 1933)

Cambrian Register (1795–1818), i

Cambrian Quarterly Magazine (1829–33), i

W. R. Williams, *The parliamentary history of the principality of Wales, from the earliest times to the present day, 1541-1895* (Brecknock 1895)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 64847620

Wikidata: Q6261871

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu